# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, A.Llewelyn a/ac W.F.Griffiths

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, N.Daniel, A.Thomas, H.Jones, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, A.Thomas a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol, yn cael eu derbyn fel cofnod cywir:

14 Chwefror 2024
21 Chwefror 2024 (Arbennig)

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **ADRODDIAD MONITRO'R TRYSORLYS**

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

8. **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 3-20**

**Penderfyniadau:**

1. Bod cynnwys yr adroddiad a ddosbarthwyd, mewn perthynas â sefyllfa amcanol bresennol alldro'r gyllideb a'r cronfeydd wrth gefn; gan gynnwys ail-bwrpasu'r cronfeydd wrth gefn y manylwyd arnynt ym mhrif gorff yr adroddiad, yn cael ei nodi.

2. Bod y trosglwyddiadau a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad a gylchredwyd, yn cael eu cymeradwyo.

3. Nodi'r cynnydd yn erbyn yr arbedion y cytunwyd arnynt.

4. Bod Swyddogion yn parhau i roi mesurau arbed costau a chynhyrchu incwm ychwanegol ar waith yn ystod y flwyddyn, er mwyn lleihau'r sefyllfa gorwariant bresennol. Caiff y mesurau hyn eu cymryd dim ond lle gellir eu cyflwyno o fewn fframweithiau polisi presennol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer trosglwyddiadau.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 9. MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF - CHWARTER 3

**Penderfyniadau:**

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol a'u hargymell i'r Cyngor:

1. Y gyllideb ddiweddaredig arfaethedig ar gyfer 2023/24 sef cyfanswm o £59.381m.

2. Y sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 31 Rhagfyr 2023.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo arian o'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau'r cyngor ar gyfer Cyllideb 2023/24.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 10. DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 3

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

## 11. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**